# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 21 Ionawr 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(241)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Dwristiaeth (60 munud)**
**NDM5670 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Dwristiaeth, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2014.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 14 Ionawr 2015.

**Dogfennau Ategol**
[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes]
[Ymateb Llywodraeth Cymru]

**4 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NNDM5639 Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyflawni cynllun gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer anhwylder yn y sbectrwm awtistig.

2. Yn nodi bod angen gwneud mwy i ddiwallu anghenion plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru.

3. Yn credu y byddai gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn arwain at fwy o eglurder ynghylch y gofal a'r cymorth y gall pobl ag awtistiaeth ei ddisgwyl.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf Awtistiaeth ar gyfer Cymru.

**5 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5671 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi:

a) pwysigrwydd y diwydiant amaeth i economi, amgylchedd a chymunedau Cymru;

b) yr argyfwng yn y sector llaeth sy'n deillio o ostyngiad yn y prisiau llaeth a delir i ffermwyr ac ansefydlogrwydd y gadwyn laeth;

c) yr ansicrwydd o ran y taliad sylfaenol sy'n deillio o ddiddymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014 yn dilyn her barnwrol;

d) y bleidlais yn Senedd Ewrop i roi'r pŵer i aelod-wladwriaethau i awdurdodi cnydau GM i aelod-wladwriaethau, a'r ffaith mai Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am

wneud y penderfyniad yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda'r gadwyn laeth a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu'n benodol i sicrhau cynaliadwyedd hyfyw y cynhyrchwyr llaeth;

b) sicrhau adnoddau digonol ac amserlen gyraeddadwy i ddiogelu talu'r taliad sylfaenol ar 1 Rhagfyr 2015; ac

c) ail-ddatgan ei bwriad i gadw Cymru yn ddi-GM.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

y rôl ganolog y mae cynhyrchu bwyd yn ei chwarae yn y byd ffermio yng Nghymru o ystyried yr angen brys i ddiogelu'r cyflenwad bwyd.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

gweithredu mesurau rhagweithiol i hwyluso'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth yn y sector ffermio, o ystyried proffil oedran ffermwyr yng Nghymru a'r angen i ddarparu mynediad i'r tir.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu is-bwyntiau newydd ar ddiwedd pwynt 2:

ymgysylltu ac ymgynghori'n ddigonol â rhanddeiliaid ynghylch y system dalu newydd yn dilyn diddymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Dosbarthiad Rhanbarthau Talu Dros Dro) (Cymru) 2014; a

ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio gyda hwy i sicrhau hyfywedd tymor hir y gwaith

o gynhyrchu bwyd a chynhyrchwyr bwyd yng Nghymru.

**6 Cyfnod pleidleisio**

**7 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5669 Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**

Dangos y faner goch i Gylchffordd Cymru – amlinellu'r pryderon am brosiect Cylchffordd Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Ionawr 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Ionawr 2015 i'w hateb ar 21 Ionawr 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ystâd y Goron? OAQ(4)0239(NR)**W**

**2. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y prosiect i ddarparu ar gyfer effaith weledol? OAQ(4)0254(NR)

**3. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach? OAQ(4)0249(NR)

**4. Sandy Mewies (Delyn):** Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi i helpu cynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru i hyrwyddo eu cynnyrch? OAQ(4)0244(NR)

**5. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch cyrff dŵr gwneuthuredig mawr? OAQ(4)0252(NR)

**6. Gwyn Price (Islwyn):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i leihau faint o fwyd a gaiff ei wastraffu? OAQ(4)0242(NR)

**7. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu canllawiau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â MTAN2? OAQ(4)0250(NR)

**8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â llifogydd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0238(NR)

**9. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Sut y mae'r Gweinidog yn cyflawni ei gyfrifoldeb trawsbynciol am ddatblygu cynaliadwy ar draws Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0247(NR)**W**

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant ffermio ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0251(NR)

**11. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gofyniad bod parciau solar ar raddfa fach yn darparu manteision cymunedol? OAQ(4)0241(NR)

**12. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sy'n cael eu cymryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wella ansawdd yr aer? OAQ(4)0253(NR)

**13. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y gerddi cymunedol sydd ar gael a'r defnydd a gaiff ei wneud ohonynt? OAQ(4)0240(NR)

**14. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ddiogelu bywyd gwyllt yng Nghymru? OAQ(4)0248(NR)

**15. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog ar gyfer pysgodfeydd arfordirol a morol yn nyfroedd Cymru wrth i Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE gael ei weithredu? OAQ(4)0246(NR)**W**

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dlodi bwyd? OAQ(4)0282(CTP)

**2. Alun Ffred Jones (Arfon):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi i helpu plant o gartrefi difreintiedig? OAQ(4)0269(CTP)**W**

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu asesiad o berfformiad ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0266(CTP)

**4. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yng Ngogledd Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)0280(CTP)

**5. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo undebau credyd yng Nghymru yn 2015? OAQ(4)0267(CTP)

**6. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo cydlyniant cymunedol? OAQ(4)0276(CTP)

**7. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraniad y sector gwirfoddol mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0279(CTP)**W**

**8. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd tuag at ddatblygu model asedau o werth cymunedol i Gymru? OAQ(4)0270(CTP)

**9. William Graham (Dwyrain De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o fesurau i gefnogi undebau credyd? OAQ(4)0277(CTP)

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon)** : Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru? OAQ(4)0278(CTP)

**11. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi i helpu pobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig? OAQ(4)0268(CTP)

**12. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i liniaru ar effeithiau diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)0274(CTP)

**13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gyfran o'r gyllideb adrannol ar gyfer mudiadau gwirfoddol a ddyrennir yn uniongyrchol iddynt yn hytrach nag i gyrff cyfryngol megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru? OAQ(4)0273(CTP)**W**

**14. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl banciau bwyd yng Nghymru? OAQ(4)0272(CTP)

**15. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiectau sy'n deillio o greu ardal adfywio strategol yn Aberystwyth? OAQ(4)0275(CTP)**W**